



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




Prif Swyddog Tân Cynorthwyol

Mawrth 2026




LHH

Cynnwys

A row of yellow fire helmets is shown on a shelf, slightly out of focus, serving as a background for the table of contents.

Croeso gan Craig Flannery	04
Hysbyseb	05
Gwybodaeth	06
Ein Lleoliad	08
Y Rôl	10
Y Person	12
Amodau a Thâl	15
Amserlenni	16



PROTECTING OUR COMMUNITY

Stats for April 2025

932

52

52

Croeso gan Craig Flannery, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rôl heriol, ond cyfle eithriadol

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fel ein Prif Swyddog Tân Cynorthwyl nesaf.

Rydym yn falch o'r hyn a wnawn. Bob dydd mae ein pobl yn amddiffyn dros 900,000 o drigolion ar hyd a lled un o'r ardaloedd mwyaf amrywiol a heriol yn ddaearyddol yn y DU. O beryglon petrocemegol mawr i ynysu gwledig, o lifogydd arfordirol i gymhlethdod trefol, mae ein timau'n ymateb gyda phroffesiynoldeb, dewrder a gofal. Ond nid yw balchder yn unig yn ddigon.

Mae'r gofynion ar wasanaethau tân ac achub modern yn newid yn gyflym. Mae perygl hinsawdd, pwysau ariannol, craffu cyhoeddus, disgwyliadau cymunedol sy'n esblygu a'r angen i foderneiddio'n barhaus sut rydym yn gweithredu i gyd yn gofyn am arweinyddiaeth strategol glir a'r hyder i wneud pethau'n wahanol.

Fel Prif Swyddog Tân, rwy'n benderfynol ein bod yn adeiladu gwasanaeth sydd nid yn unig yn rhagorol yn weithredol, ond yn gryf yn ddiwylliannol – yn gynhwysol, yn atebol ac yn uchelgeisiol ar gyfer y cymunedau a wasanaethwn. Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyl yn chwarae rhan allweddol yn yr uchelgais honno.

Byddwch yn aelod allweddol o'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol. Byddwch yn helpu i lunio strategaeth, gyrru perfformiad a dylanwadu ar sut rydym yn addasu i'r heriau sydd o'n blaenau.

Byddwch yn arwain drwy eraill, yn creu eglurder mewn cymhlethdod, ac yn modelu'r ymddygiadau rydym yn eu disgwyl ledled y sefydliad: Atebolrwydd, Uniondeb, Parch, Didueddrwydd a Moeseg. Nid cynnal safonau'n unig yw diben y rôl. Mae'n ymwneud â'u codi.

Rydym yn chwilio am arweinydd sy'n weladwy, yn ddewr ac yn gydweithredol. Rhywun sy'n deall gorchymyn gweithredol ar y lefel uchaf ond sydd hefyd yn cydnabod y bydd dyfodol ein gwasanaeth yn cael ei lunio trwy bartneriaeth, arloesedd ac aeddfedrwydd diwylliannol.

Byddwch yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n atebol yn wleidyddol ac yn gweithio'n agos gyda'n Hawdurdod Tân, Llywodraeth Cymru, asiantaethau partner a chyrrff cynrychioliadol. Mae'r gallu i feithrin ymddiriedaeth, dylanwadu'n adeiladol a gwneud penderfyniadau cadarn o dan graffu yn hanfodol.

Mae hon yn rôl heriol - ond mae hefyd yn gyfle eithriadol. Mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig rhywbeth prin: gwasanaeth o raddfa a chymhlethdod go iawn, ynghyd ag ymdeimlad cryf o gymuned a phwrpas.

Os ydych chi'n gryf eich cymhelliad dros wasanaeth cyhoeddus, yn cael eich ysbrydoli gan bobl flaenllaw ac yn barod i helpu i lunio pennod nesaf ein sefydliad, byddwn wrth fy modd yn clywed gennych chi.

Craig Flannery

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru



Hysbyseb

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Lleoliad – Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin Cyflog – £121,640 - £129,310

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am arweinydd strategol eithriadol i ymuno â'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol fel Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

Mae hon yn rôl ganolog o fewn un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf a mwyaf amrywiol y DU yn ôl daearyddiaeth. Mae'n gwasanaethu mwy na 900,000 o bobl ar draws canolfannau trefol, cymunedau gwledig, perygl diwydiannol mawr ac arfordir helaeth, ac mae graddfa a chymhlethdod ein hamgylchedd gweithredu yn mynnu arweinyddiaeth o'r safon uchaf.

Rydym yn falch o'n rhagoriaeth weithredol. Rydym yr un mor uchelgeisiol ynghylch ein dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid strategol- cryfhau gwydnwch ariannol, ymgorffori arweinyddiaeth gynhwysol, moderneiddio darpariaeth gwasanaethau a dyfnhau cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn chwarae rhan ganolog wrth lunio a chyflawni'r agenda honno.

Rydym yn chwilio am arweinydd strategol profedig sy'n:

- Rheolwr Brigâd neu'n Rheolwr Ardal Cymwys presennol.
- Meddu ar gymhwyster Rheoli Digwyddiadau Aur Aml-Asiantaeth (Lefel 4 ICL neu gyfwerth).
- Medi ar brofiad amlwg o arwain swyddogaethau cymhleth ar raddfa fawr.
- Gallu gweithredu'n hyderus o fewn amgylchedd sy'n atebol yn wleidyddol.
- Meithrin perthnasoedd adeiladol â chyrff cynrychioliadol a rhanddeiliaid.
- Arwain newid diwylliannol gyda hygyrdded, gwelededd ac uniondeb.

Byddwch yn gyfrifol am yrru perfformiad ar draws eich cyfarwyddiaeth, gan gyfrannu at strategaeth sefydliadol a chyflenwi'n weithredol fel Prif Swyddog ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r rôl hon yn galw am farn gadarn, hygyrdded gweithredol a'r gallu i ddylanwadu ar y lefelau uchaf. Mae hefyd yn cynnig cyfle prin - i lunio cyfeiriad gwasanaeth sy'n uchelgeisiol, yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn falch o'i bobl.

Mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig ansawdd bywyd eithriadol, gan gyfuno her broffesiynol â mynediad at rai o'r tirweddau harddaf yn y Deyrnas Unedig.

Os ydych chi'n gryf eich cymhelliad dros wasanaeth cyhoeddus, yn barod i arwain trwy gymhlethdod ac wedi ymrwymo i fodelu Atebolrwydd, Uniondeb, Parch, Didueddrwydd a Moeseg, byddem yn croesawu eich cais.

I gael gwybod mwy a sut i wneud cais ewch i [Penna | Jobs](#) neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â Fizza Islam ar Fizza.Islam@LHH.com neu **0141 220 6460**.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner nos ddydd Sul 12 Ebrill 2026**.



Gwybodaeth

Lleihau perygl a diogelu'r bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn diogelu ac yn gwasanaethu mwy na 900,000 o bobl ar draws bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Rydym yn cwmpasu tua 11,700 cilomedr sgwâr - o Bort Talbot yn y de i ffiniau Powys yn y gogledd, ac o ganolfannau diwydiannol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gymunedau arfordirol Sir Benfro a Cheredigion – ac rydym yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf yn y Deyrnas Unedig yn ôl daearyddiaeth.

Ein tirwedd sy'n diffinio ein her. Rydym yn rheoli proffil risg amrywiol sy'n cynnwys:

- Seilwaith petrocemegol ac ynni mawr yn Aberdaugleddau.
- Diwydiant trwm ac amgylcheddau trefol dwys.
- Cymunedau gwledig ac amaethyddol helaeth.
- 650km o arfordir a dyfrffyrdd mewn dirol sylweddol.
- Cynnydd tymhorol yn y boblogaeth o ganlyniad i dwristiaeth.

Rydym yn gweithredu o 56 o orsafoedd tân a 2 orsaf wirfoddol ar draws tair adran, gyda chefnogaeth tua 1,350 o gydweithwyr ymroddedig sy'n gweithio mewn ymateb brys, atal, amddiffyn a swyddogaethau corfforaethol.

Er mai ymateb brys sy'n parhau i fod wrth wraidd ein gwasanaeth, mae ein rôl heddiw yn ehangach ac yn fwy ataliol nag erioed.

Rydym yn mynychu miloedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn - gan gynnwys tanau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, llifogydd ac achub arbenigol - ond mae ein heffaith yn gynyddol yn cael ei mesur gan y digwyddiadau nad ydynt yn digwydd.

Trwy weithgarwch atal wedi'i dargedu, gorfodi diogelwch tân busnesau, ymgysylltu â'r gymuned, cydweithio ag ymatebwyr meddygol a gweithio mewn partneriaeth, rydym yn lleihau perygl ac yn amddiffyn y bobl fwyaf bregus ar draws ein cymunedau.

Er ein bod yn haeddiannol falch o'n gallu gweithredol, rydym yr un mor falch o'n rôl gynyddol mewn atal, amddiffyn a phartneriaeth.

Mae ein ffocws strategol presennol yn cynnwys:

- Cryfhau gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd hirdymor.
- Ymgorffori aeddfedrwydd diwylliannol ac arweinyddiaeth gynhwysol.
- Gwella rhagoriaeth weithredol a gallu rheoli digwyddiadau.
- Dyfnhau cydweithio â'n partneriaid golau glas a gwasanaeth cyhoeddus Cymru.
- Manteisio ar drawsnewid digidol a mewnwelediad data.
- Sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Nid busnes fel arfer yw hyn. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd o gyfyngiadau ariannol, craffu cyhoeddus a disgwyliadau cymunedol sy'n esblygu. Ein hymateb yw arwain gyda dilysrwydd, tryloywder ac uchelgais - gan wella sut rydym yn defnyddio ein pobl, ein hasedau a'n harbenigedd yn barhaus.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei oruchwylio gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys 25 o Aelodau etholedig sy'n cynrychioli chwech awdurdod lleol cyfansoddol. Fel gwasanaeth, rydym yn atebol i'r cyhoedd ac yn gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae ein ffocws yn syml: darparu gwasanaethau diogel, effeithiol ac effeithlon sy'n ennill ac yn cynnal ymddiriedaeth y cymunedau a wasanaethwn.





Ein Lleoliad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig cyfuniad prin: gallwch weithio mewn sefydliad sydd â maint a chymhlethdod gwasanaeth brys mawr, ochr yn ochr â byw ansawdd bywyd sy'n gynyddol anodd dod o hyd iddo mewn mannau eraill yn y DU.

Lle i Anadlu — a Pherthyn

Mae Caerfyrddin, lleoliad ein Pencadlys Gwasanaeth, yn cael ei hystyried yn eang fel y dref hynaf yng Nghymru. Mae'n cyfuno cymeriad hanesyddol â bywiogrwydd diwylliannol a masnachol cynyddol. Mae manwerthwyr, caffis a bwytai annibynnol yn eistedd ochr yn ochr â datblygiadau modern, gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf yn cysylltu'r dref ag Abertawe, Caerdydd a thu hwnt.

Mae'r rhanbarth ehangach yn cynnig harddwch naturiol eithriadol. O Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr i Fynyddoedd Cambria a Bannau Brycheiniog, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mynediad uniongyrchol i arfordir, cefn gwlad a mannau agored.

I'r rhai sy'n gwerthfawrogi byw yn yr awyr agored, mae'r ardal yn cynnig hwylio, syrffio, beicio, cerdded a gweithgareddau marchogaeth sy'n hawdd eu cyrraedd. I eraill, mae'n cynnig rhywbeth yr un mor werthfawr - gofod, rheolaeth a phersbectif.

Cysylltedd a Mynediad

Mae Caerfyrddin wedi'i chysylltu'n dda gan reilffyrdd a ffyrdd:

- Gwasanaethau rheilffordd uniongyrchol i Abertawe, Caerdydd a Llundain.
- Mynediad i goridor yr M4 o fewn tua 30–40 munud.
- Maes Awyr Caerdydd o fewn tua 90 munud.

I uwch arweinwyr sy'n symud o ganolfannau trefol, mae'r cymudo'n cael ei ddisodli gan gymuned.

Addysg a Chymuned

Mae'r rhanbarth yn elwa o amrywiaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd uchel eu parch yn y sectorau gwladol ac annibynnol. Mae sefydliadau addysg uwch yn Abertawe ac Aberystwyth yn cyfrannu at bresenoldeb myfyrwyr ac ymchwil bywiog ar hyd a lled y rhanbarth. Mae gan ganolbarth a gorllewin Cymru ymdeimlad cryf o hunaniaeth a chymuned. Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhan bwysig o fywyd bob dydd sy'n cael ei dathlu, ac mae llawer o arweinwyr sy'n symud i'r ardal yn sôn am y cynhesrwydd a'r croeso maen nhw'n ei dderbyn.

Tai a Chost Byw

O'i gymharu â llawer o rannau o'r DU, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig gwerth rhagorol mewn prisiau tai, boed yn chwilio am eiddo arfordirol, tawelwch gwledig neu gyfleustra canol tref. Mae'r cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb proffesiynol a lles personol yn wirioneddol gyraeddadwy yma.

Rôl Arweinyddiaeth gyda Chydbwysedd Ffordd o Fyw

Dyma wasanaeth sy'n mynnu perfformiad uchel - ond mae hefyd wedi'i leoli mewn rhan o'r DU sy'n galluogi arweinwyr i adfywio, myfrio a chynnal cydbwysedd. Mae symud ar gyfer rôl arweinyddiaeth uwch yn benderfyniad arwyddocaol - yn broffesiynol ac yn bersonol.

I'r rhai sy'n barod i symud, mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig mwy na symudiad gyrfa. Mae'n cynnig newid mewn cyflymder heb leihau effaith.





Y Rôl

Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac mae'n chwarae rhan ganolog wrth lunio cyfeiriad strategol, perfformiad a diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân, byddwch yn darparu arweinyddiaeth weladwy, sy'n cael ei harwain gan werthoedd, ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn rhagorol yn weithredol, yn gynaliadwy'n ariannol ac yn gryf yn ddiwylliannol.

Mae hon yn rôl arweinyddiaeth strategol a gweithredol, sy'n gofyn am feddwl corfforaethol, ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i orchymyn gydag awdurdod pan fo angen.

Arweinyddiaeth Strategol

Fel Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, byddwch yn:

- Cyfrannu at ddatblygu a chyflawni amcanion strategol hirdymor y gwasanaeth.
- Trosi strategaeth yn flaenoriaethau clir a chanlyniadau mesuradwy o fewn eich Cyfarwyddiaeth.
- Darparu arweinyddiaeth ar y cyd fel rhan o'r Tîm Gweithredol, gan lunio penderfyniadau y tu hwnt i'ch cylch gwaith swyddogaethol.
- Arwain trawsnewid sefydliadol, gan ymgorffori gwelliant parhaus a moderneiddio.
- Hyrwyddo gwerthoedd y Gwasanaeth o ran Atebolrwydd, Uniondeb, Parch, Didueddrwydd a Moeseg.

Byddwch yn helpu i sicrhau bod y Gwasanaeth yn addasu'n hyderus i bwysau ariannol, proffiliau risg sy'n esblygu a disgwyliadau cymunedol sy'n newid.

Arweinyddiaeth y Gyfarwyddiaeth

Bydd gennych gyfrifoldeb uniongyrchol dros faes Cyfarwyddiaeth mawr (portffolio i'w gadarnhau), gan ddarparu goruchwyliaeth strategol ac atebolrwydd gweithredol am berfformiad, llywodraethu, gweithlu a chyllideb.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Gosod disgwyliadau perfformiad clir a dwyn uwch arweinwyr i gyfrif.
- Sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a llywodraethu corfforaethol effeithiol.
- Gyrru arloesedd a gwella gwasanaethau.
- Goruchwyllo cynllunio ariannol a dyrannu adnoddau.
- Datblygu timau arweinyddiaeth cynhwysol sy'n perfformio'n uchel.

Byddwch yn creu eglurder diben ar draws eich Cyfarwyddiaeth ac yn sicrhau alinio â blaenoriaethau corfforaethol.

Rheolaeth Weithredol

Fel Prif Swyddog, byddwch yn:

- Meddu ar gymhwyster rheoli digwyddiadau strategol (Aur Aml-Asiantaeth / ICL 4).
- Cyflenwi fel Prif Swyddog yn unol â'r system Dyletswydd Barhaus.
- Gweithredu fel Comander Aur mewn digwyddiadau sylweddol neu gymhleth pan fo angen.
- Cefnogi datblygiad parhaus gallu rheoli digwyddiadau ar draws y Gwasanaeth.

Mae Swyddogion Rota Aur yn cyflenwi'n weithredol ac yn barhaus ar draws canolbarth a gorllewin Cymru ac efallai y bydd gofyn iddynt ymateb i ddigwyddiadau Gwydnwch Cenedlaethol ledled y DU. Mae chwe swyddog yn cyflenwi 24/7 ar ddwy rota ar gylchdro tair wythnos.

Mae Rhyddid Symud yn berthnasol yn ystod cyfnodau dyletswydd, ar yr amod y gallwch fodloni'r amseroedd ymateb gofynnol. Bydd swyddogion yn cael eu dynodi fel G1, G2 neu G3:

- G1 - i fod yn bresennol o fewn 2 awr o'r amser ymgasglu
- G2 - i fod yn bresennol o fewn 12 awr o'r amser ymgasglu neu gyfnod arall a bennir gan y Swyddog Galwad 1af
- G3 - i fod yn bresennol o fewn 24 awr o'r amser ymgasglu neu gyfnod arall a bennir gan y Swyddog Galwad 1af neu 2il Alwad

Mae hygyrddedd gweithredol yn hanfodol - ond felly hefyd y gallu i weithredu y tu hwnt i safle'r digwyddiad.



Y Rôl

Cefnogi datblygiad y gweithlu, cynllunio olyniaeth a thwf arweinyddiaeth.

Llywodraethu a Dylanwad Allanol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n atebol yn wleidyddol ac sy'n cael ei graffu'n fanwl. Byddwch yn:

- Cynghori a chefnogi'r Prif Swyddog Tân ac Aelodau'r Awdurdod Tân ar faterion strategol.
- Cyflwyno materion cymhleth yn glir ac yn hyderus i Aelodau etholedig a rhanddeiliaid.
- Meithrin perthnasoedd adeiladol â Llywodraeth Cymru, asiantaethau partner a chyrrff cynrychioliadol.
- Cyfrannu at drafodaethau arweinyddiaeth tân cenedlaethol yng Nghymru a ledled y DU.

Rhaid eich bod yn gyfforddus yn gweithredu o dan graffu cyhoeddus ac yn gallu gwneud penderfyniadau cytbwys a thryloyw.

Pobl a Diwylliant

Mae diwylliant yn ganolog i lwyddiant y Gwasanaeth yn y dyfodol. Byddwch yn:

- Modelu arweinyddiaeth gynhwysol, foesegol ac atebol.
- Meithrin cysylltiadau diwydiannol cadarnhaol ac adeiladol.
- Cefnogi datblygiad y gweithlu, cynllunio olyniaeth a thwf arweinyddiaeth.
- Hyrwyddo lles, urddas yn y gwaith ac aeddfedrwydd diwylliannol.
- Sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hymgorffori mewn ymarfer, nid rhethreg.

Bydd eich arweinyddiaeth yn dylanwadu'n uniongyrchol ar sut mae pobl yn profi'r sefydliad.

Cyfrifoldeb Ariannol a Chorfforaethol

Gan weithredu o fewn hinsawdd ariannol heriol, byddwch yn:

- Sicrhau stiwardiaeth effeithiol o arian cyhoeddus.
- Nodi arbedion a chyfleoedd i arloesi.
- Cefnogi gwydnwch ariannol hirdymor.
- Cyfrannu at gynllunio cyfalaf strategol a gwneud y gorau o adnoddau.


Byddwch yn cydbwysu uchelgais â realaeth a chyfle ag atebolrwydd.

Y Cyfle

Mae hon yn rôl i arweinydd sydd eisiau llunio dyfodol gwasanaeth brys cymhleth sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Mae'n gofyn am hygyrdded gweithredol, ymwybyddiaeth wleidyddol, meddwl strategol a deallusrwydd diwylliannol yn yr un modd.

Mae'n cynnig dylanwad gwirioneddol, cyfrifoldeb gweithredol a'r cyfle i wneud gwahaniaeth parhaol i gymunedau ledled canolbarth a gorllewin Cymru.



Y Person

Hanes profedig o arwain swyddogaethau mawr, amlddisgyblaethol ar lefel strategol.

Gwybodaeth a Phrofiad

Rydym yn chwilio am arweinydd strategol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd, gyda'r hygredded gweithredol, yr aeddfedrwydd sefydliadol a'r uniondeb personol sydd eu hangen i weithredu ar y lefel uchaf mewn Gwasanaeth Tân ac Achub modern. Mae'r rôl hon yn mynnu mwy na chymhwysedd. Mae'n gofyn am grebwyll, dylanwad a'r gallu i arwain trwy gymhlethdod.

Profiad Hanfodol

Byddwch yn gallu dangos:

- Profiad cyfredol o weithredu ar lefel Rheolwr Brigâd/ Rheolwr Ardal (neu gyfwerth) o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Awdurdod Lleol.
- Cymhwyster Rheoli Digwyddiadau Aur Aml-Asiantaeth (Lefel 4 ICL neu gyfwerth).
- Hanes profedig o arwain swyddogaethau mawr, amlddisgyblaethol ar lefel strategol.
- Profiad o weithredu'n effeithiol o fewn amgylchedd sy'n atebol yn wleidyddol.
- Cyflawni newid strategol a gwella perfformiad yn llwyddiannus.
- Tystiolaeth o reoli cyllidebau, adnoddau a risg sefydliadol sylweddol.
- Profiad o ymgysylltu adeiladol â chyrff cynrychioliadol a rhanddeiliaid.

Rhaid gallu dangos tystiolaeth o effaith - nid cyfrifoldeb yn unig.

Gallu Arweinyddiaeth Strategol

Byddwch yn dangos:

- Y gallu i feddwl a gweithredu'n gorfforaethol, y tu hwnt i ffiniau swyddogaethol.
- Crebwyll cadarn a'r gallu i wneud penderfyniadau'n gadarn o dan bwysau.
- Hyder wrth gyflwyno materion cymhleth yn glir i Aelodau etholedig a rhanddeiliaid uwch.
- Y gallu i gydbwyso blaenoriaethau gweithredol ag uchelgais strategol hirdymor.
- Dealltwriaeth gref o lywodraethu, atebolrwydd cyhoeddus a chraffu.

Byddwch yn gyfforddus yn arwain mewn amwysedd ac yn darparu eglurder i eraill.

Pobl ac Arweinyddiaeth Ddiwylliannol

Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori diwylliant cryf a chynhwysol ar draws y Gwasanaeth.

Byddwch yn dod â:

- Arweinyddiaeth weladwy, foesebol a dyls.
- Y gallu i ysbrydoli ymddiriedaeth a hyder ar draws timau amrywiol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith.
- Profiad o feithrin cysylltiadau diwydiannol cadarnhaol.
- Hanes o ddatblygu uwch arweinwyr ac adeiladu timau sy'n uchel eu perfformiad.

Rhaid modelu'r safonau rydych chi'n eu disgwyl gan eraill.



Cyd-fynd ag Ymddygiad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn disgwyl i bob uwch arweinydd arddangos ein hymddygiadau craidd:

Atebolrwydd – Cymryd perchnogaeth o benderfyniadau a chanlyniadau.

Uniondeb – Gweithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chysondeb.

Parch – Gwerthfawrogi eraill a chreu amgylcheddau diogel yn seicolegol.

Didueddrwydd – Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn rhydd rhag rhagfarn.

Moeseg – Cynnal y safonau ymddygiad proffesiynol uchaf.

Fel Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, rhaid i'r ymddygiadau hyn fod yn weladwy mewn cyd-destunau gweithredol a chorfforaethol.

Y Person

Cymhwyster lefel gradd (neu brofiad cyfatebol) mewn disgyblaeth berthnasol.

Gofynion Gweithredol

- Parodrwydd a gallu i weithredu ar system Dyletswydd Barhaus.
- Cynnal cymhwysedd gweithredol ar lefel Strategol (Aur).
- Ffitrwydd corfforol a meddygol yn unol â gofynion y Gwasanaeth.
- Gallu teithio ar draws ardal y Gwasanaeth ac yn genedlaethol pan fo angen.

Cymwysterau

- Cymhwyster lefel gradd (neu brofiad cyfatebol) mewn disgyblaeth berthnasol.
- Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol neu gymhwyster rheoli ôl-raddedig (dymunol).
- Tystiolaeth barhaus o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Yr Iaith Gymraeg ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Mae gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol canolbarth a gorllewin Cymru yn bwysig.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Darperir cefnogaeth i ddatblygu gallu iaith lle bo angen.

Yr Hyn Fydd yn Eich Gosod Ar Wahân

- Chwylfrydedd deallusol a bod yn agored i arloesedd.
- Bod yn ddigynnwrf dan graffu.
- Meddylfryd cydweithredol.
- Y dewrder i herio'n adeiladol.
- Y gostyngedd i wrando.





Amodau a Thâl

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw.

Cyflog

£121,640 - £129,310

Lleoliad Gwaith

Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin

Adleoli

Darperir cymorth gyda chostau adleoli. Byddwch yn gymwys i gael uchafswm o £8,000 i gynnwys unrhyw beth sy'n gysylltiedig â phrynu/rhentu tŷ a symud.

Beth sydd wedi'i gynnwys:

- Costau symud / storio
- Treth Stamp
- Ffioedd cyfreithiol, arolwg, arwerthwr, chwilio, ffioedd y gofrestrfa tir a ffioedd asiantau tai
- Môn wariant yn y cartref newydd a brynir
- Llety rhent
- Treuliau llety/teithio dros dro

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella'ch ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol:

- Aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Gwyliau blynyddol hael
- Dysgu a datblygu
- Chwaraeon a chymdeithasol
- Cyngorwyr iechyd a ffitrwydd
- Cyrsiau Cymraeg
- Buddion Siopa
- Iechyd Galwedigaethol
- Aelodaeth o Undeb
- Parcio am Ddim
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Llesiant Gweithwyr
- Elusen y Diffoddwyr Tân

Amserlenni

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
Hanner nos dydd Sul 12 Ebrill, 2026

Canolfan Asesu:
Dydd Mercher 3 Mehefin, 2026

Cyfweliadau:
Wythnos yn cychwyn 8 Mehefin, 2026



Sut i Ymgeisio

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol fod yn gynrychioliadol o bob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.

I wneud cais am y swydd, anfonwch CV wedi'i deilwra a llythyr eglurhaol at Penna.Jobs am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â'n cydweithiwr Fizza Islam ar Fizza.Islam@LHH.com

Sylwch na ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hirach na thair tudalen o A4 a dylai grynhoi eich sgiliau a'ch profiad perthnasol a'ch cymhellion dros wneud cais am y rôl.

Os hoffech drafodaeth gyfrinachol, anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Fizza Islam, LHH ar **+44 (0)141 220 6460** neu e-bostiwch y cyfeiriad uchod.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol fod yn gynrychioliadol o bob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaoedd.

Rydym yn adolygu ein dull o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein ceisiadau yn gyson a byddem yn falch pe gallech lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch neu os hoffech siarad ag aelod o'n tîm i drafod unrhyw amgylchiadau penodol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad uchod.





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

